

Yn ei farwnad i Pantycelyn, rhestra Thomas Jones o Ddinbych rai o'r 'doniau ar ei ben ei hunan' oedd yn perthyn i'w wrthrych. Mae ei eiriau'n werth eu dyfynnu, oherwydd maent yn dweud rhywbeth am Williams a ddwedwyd gan sawl un wedyn:

Medrus, manwl mewn athrawiaeth,

Egwyddorion, a disgyblaeth;

Ca'dd ei ddysgu i drin, yn gymmwys,

Bob rhyw gyflwr yn yr Eglwys:

Cryf a gwan, ymmhob man, a wyddan', lle teithiai,

Llwybrau ceimion [h.y. cam] a ddangosai;

Cysur, maeth i'r gwan a roddai.

Gwelai Jones ym mywyd Williams briodas fendigedig rhwng athrawiaeth uniongred a dirnadaeth fugeiliol. Eleni, wrth i ni ddatlu trichanmlwyddiant ei eni, gallwn wneud mwy na pharhau i 'ganu'r hen emynau pob cyfle rownd y ril', fel dwedodd Huw Chiswell – gallwn hefyd barhau i elwa ar ei ddoethineb.

Y ffordd orau i ni ddechrau gwneud hynny yw darllen ei weithiau. Fel y nododd C. S. Lewis unwaith, daw rhyw ostyngeddwrwydd drosom pan feddyliwn am ddarllen campweithiau hen awduron, ac awn ati i chwilio am gymorth gan bobl sy'n fwy abl na ni i'w dehongli. Ond nid oes angen i ni gael ein caethiwo yn y modd hwn, medd Lewis. A dweud y gwir, mae'n dda o beth i ni weld y byd trwy lygaid rhai o fawrion yr oesoedd trosom ein hunain, a thrwy hynny gael golwg ar y byd a'i bethau o safbwynt wahanol i bwysleisiau ein hoes.

William Williams y Bugail

Un o'r ffyrdd gorau i'r Cristion ddechrau darllen Pantycelyn yw troi at y gyfrol *Templum Experientiae apertum*; neu, *Ddrws y Society Profiad Wedi ei agor o Led y Pen*. Cyhoeddwyd y gwaith byr hwn ym 1777. Roedd Williams erbyn hyn yn drigain oed, ac wedi treulio'r deugain mlynedd cynt yn bugeilio Cristnogion trwy 'bob rhyw gyflwr' yn seiadau'r mudiad Methodistaidd. Mae *Drws y Society Profiad* yn crynhoi'r ddoethineb a gasglodd drwy gydol ei oes, ac yn ei mynegi yn un o hoff ffurfiau llenyddol Cristnogion yr oes – y ddeialog rhwng gŵr profiadol a dyn ieuanc.



1717-1791

Ond beth yn union oedd seiat? Yn gryno, cyfarfod ydoedd o bobl oedd wedi ymrwymo'n wirfoddol i annog ei gilydd yn y ffydd Gristnogol. Gwnaent hynny trwy weddio a moli, ond yn bennaf, byddent yn holi am brofiadau ysbrydol eu cyd-seiadwyr. Byddent yn cynnull dan arolygaeth stiward, a byddai hwnnw yn ei dro yn ateb i'r strwythur Methodistaidd ehangach.

Pam oedden nhw'n gwneud hyn? Credai Williams, fel ei gyd-Fethodistiaid, fod amrywiaeth o bethau'n gallu baglu'r Cristion ar ei daith tua'r nef: 'aneirif yw eu temtasynau, a rheiny o bob math; rhai at bob graddau, rhai at bob oedran, rhai o mewn, rhai o maes, rhai o mewn ac o maes ar unwaith'. Y moddion gorau i ateb hynny oedd casglu credinwyr yn grwpiau, er mwyn sicrhau na fyddai cariad pobl yn oeri. Rhaid oedd cael mwy na gwasanaeth eglwysig i gynnal y pererin ar ei daith.

Mae *Drws y Society Profiad* yn llawn cyngor gan Pantycelyn ar gynnal bywyd y seiat. Rhydd arweiniad ar ddewis a meithrin arweinwyr; ar y pethau sy'n rhwystro arweinwyr rhag arwain ei bobl yn effeithiol; ar wybod pryd i holi cwestiwn, a phryd i beidio, ymhlith pethau eraill. Daw'r cyngor hwn oddi wrth un a wyddai sut rai oedd pobl, ac a wyddai sut i'w cynorthwyo yn eu llawenydd a'u treialon.

Drws y Society Profiad heddiw

Er bod bron i ddau gant a hanner o flynyddoedd ers ysgrifennu'r gyfrol, rym ni'n cwrdd â chymeriadau a chyflyrau ysbrydol sydd yn ddigon cyfarwydd i ni o fewn yr eglwys heddiw ar dudalennau'r *Drws*. Oherwydd hynny, mae darllen y gwaith yn sialens i ninnau mewn sawl ffordd. Yn ddi-os mae yna her bersonol. Mae'n cymdeithas heddiw yn llawer mwy preifat na chymdeithas Cymry'r ddeunawfed ganrif. Gallwn guddio llawer mwy am ein hunain nag y gallen nhw, er pob cyfrwng cymdeithasol. Fe fyddai awdur y *Drws* yn ein hatgoffa ni fod 'edrych a gwyllo ar ôl bywydau ein gilydd' trwy fod yn rhan o

gymuned eglwysig glôs yn rhan anhepgor o'n bywydau fel Cristnogion, a bod ein llawenydd yn yr Arglwydd a'n dyfalbarhad yn hynod simsan os nad ydym wedi ymrwymo i gymdeithas Gristnogol.

Un peth a all ein rhwystro rhag ymrwymo i'r fath gymdeithas yw'n hofn o bobl yn camddefnyddio awdurdod. Gall y fath gamddefnydd ddirgwydd yn rhwydd. Ceir enghreifftiau yn hanes hwyrach y Methodistiaid o gollir ffordd a bod yn annynol a chreulon wrth ddisgyblu. Ar un achlysur enwog, diarddelwyd gŵr o ardal Llansannan am deithio ar y Sul i fod gyda'i wraig pan oedd hi ar farw. Daw'n amlwg o ddarllen *Drws y Society Profiad* nad peth newydd oedd arweinwyr yn camddefnyddio'r awdurdod a roddwyd iddynt. Yr oedd rhai, medd Pantycelyn, yn 'tramgwyddo gweiniaid yn aruthr' trwy adrodd iddynt eu pechodau mewn modd angharedig ac ymosodol, ac mae llawer yn y gyfrol yn annog arafwch cyn symud i diarddel aelodau.

Fel y dywedwyd ar y cychwyn, dawn Pantycelyn oedd cyplysu diwinyddiaeth uniongred a gofal bugeiliol. Mae'r *Drws*, fel nifer o'i weithiau eraill, yn llwyddo i wneud hyn trwy sicrhau fod y seiat yn gweithredu yng ngoleuni ymwneud Duw â dyn. Pererinion yn cyd-gerdded tua'r gogoniant oedd seiadwyr Williams. Nid oes un ohonyn nhw sydd uwchlaw temtasiwn – mae'r diafol yn graff ac yn gyfrwys, a gall rwydo pob un i feiau sy'n dod yn rhwydd i'w radd a'i gyflwr. Lle i'r gwan orffwyso, cryfhau, a derbyn o nerth yr Ysbryd trwy weinidogaethu i'w gilydd oedd y seiat.

*Cyd-fynd o hyd dan ganu 'mlaen,
cyd-ddioddef yn y dŵr a'r tân,
cydgario'r groes, cydlawenhau,
a chydgystuddio dan bob gwae.*

Mae Andras Iago'n weinidog gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghwm Tawe

